


# Coronafeirws a Fi 2

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 [www.widgit.com](http://www.widgit.com)




**Comisiynydd  
Plant Cymru**  
Children's  
Commissioner  
for Wales



Mae'r adroddiad yma gan Gomisiynydd  
Plant Cymru.

Mae'r adroddiad yn sôn am ganlyniadau yr  
arolwg gynhalion ni ar draws y wlad.



Roedd yr arolwg yn gofyn cwestiynau am  
y coronafeirws. Roedd yn gofyn i blant a  
phobl ifanc ddweud wrthyn ni sut roedden  
nhw'n teimlo am orfod aros gartre.




# Yr arolwg

Dyma'r ail dro i ni gynnal arolwg am y coronafeirws.



Roedd yr arolwg cyntaf ym mis Mai 2020, pan wnaeth bron 24,000 o blant a phobl ifanc roi eu barn i ni.



Y tro yma fe wnaeth 19,500 o blant a phobl ifanc ddweud wrthyn ni beth oedden nhw'n meddwl am eu profiadau o'r coronafeirws ac aros gartre.




Fe wnaethon ni ychwanegu rhai cwestiynau newydd am ddysgu gartre i'r arolwg.


Fe wnaethon ni gadw'r rhan fwy o'r cwestiynau eraill yr un fath, i ni allu gweld oedd yna wahaniaeth ers atebion mis Mai 2020.



# Sut i ddefnyddio'r wybodaeth yma



Rydyn ni wedi rhannu ein canlyniadau yn bynciau gwahanol.



Rwyt ti'n gallu clicio ar bwnc sy'n ddiddorol i ti i gael rhagor o wybodaeth.

Dyma'r pynciau:

- Teimladau
- Help ychwanegol
- Corff a meddwl iach
- Dysgu
- Cael gwybodaeth a siarad â phobl
- Yr iaith Gymraeg
- Chwarae



# Grwpiau

---


Pan edrychon ni ar y canlyniadau, fe wnaethon ni sylweddoli bod gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc yn cael gwahanol brofiadau.

Rwyt ti'n gallu gweld rhagor o wybodaeth am brofiadau'r grwpiau yma trwy glicio arnyn nhw:


- Plant 3-7 oed
- Plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol (BAME)
- Plant a phobl ifanc anabl



Yn yr adroddiad yma: :



Plant = 7 i 11 oed




Pobl ifanc = 12 i 18 oed



# Teimladau




Mae gan lawer o blant a phobl ifanc deimladau cryf am orfod bod gartref y rhan fwy o'r amser.




Mae llawer o blant a phobl ifanc yn dweud bod nhw'n teimlo'n unig. Mae dros chwarter o bobl ifanc 12-18 oed yn dweud bod nhw'n unig y rhan fwy o'r amser.



Fe wnaethon ni sylwi bod plant yn sôn am deimlo'n fwy hapus, yn fwy diogel ac yn llai pryderus na phobl ifanc henach.



Mae llawer o blant a phobl ifanc yn pryderu am y feirws. Maen nhw'n poeni bydd pobl sy'n bwysig iddyn nhw yn mynd yn sâl a hefyd pa mor hir bydd hyn i gyd yn para.




Dyw pob plentyn a pherson ifanc ddim yn anhapus.

Mae rhai plant a phobl ifanc yn mwynhau cael amser gyda'r teulu a dysgu ar gyflymdra sy'n addas iddyn nhw.




# Help ychwanegol

Fe wnaethon ni ofyn i blant a phobl ifanc "pa help ychwanegol wyt ti'n meddwl bod ti angen ar hyn o bryd?"




Mae tua 1 o bob 3 plentyn a pherson ifanc yn dweud bod dim angen help ychwanegol arnyn nhw ar yr adeg yma.

Dyma'r tri pheth mae plant a phobl ifanc eisiau help ychwanegol gyda nhw fwya:



- Cefnogaeth i deimlo'n hapus ac yn iach
- Cefnogaeth i wneud gwaith ysgol
- Mwy o wybodaeth am bethau rwyd ti'n gallu gwneud gartre




Mae rhai plant a phobl ifanc eisiau help hefyd i'w teulu gael y bwyd sydd angen.






# Corff a meddwl iach



Dyw plant ddim bob amser yn gwybod ble i gael help i gadw'n hapus ac yn iach.




Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dweud bod nhw'n ymarfer corff tu allan i gadw corff a meddwl iach.




# Dysgu




Mae'r ysgol neu'r coleg wedi cysylltu â bron pob plentyn a pherson ifanc.




Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n llai hyderus am eu dysgu nawr nag ym mis Mai. Mae plant henach yn teimlo'n llai hyderus am ddysgu na phlant ifanc.




Mae tua hanner y bobl ifanc yn hoffi dysgu ar gyflymdra sy'n addas iddyn nhw.



Mae tua hanner y bobl ifanc yn bositif am y gefnogaeth maen nhw'n cael gan athrawon.



Ond mae mwy na hanner y bobl ifanc yn poeni am fethu dal i fyny. Mae dros hanner yn poeni am gymwysterau hefyd.



Dyw mwy na hanner y bobl ifanc ddim yn teimlo fel gwneud gwaith ysgol gartre. Mae rhai pobl ifanc hefyd yn teimlo bod nhw'n cael gormod o waith.



# Cael gwybodaeth a siarad â phobl



Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael gwybodaeth am y feirws gan eu teulu, neu o'r teledu.




Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dweud bod eu cysylltiad rhyngrwyd yn ddigon cyflym i wneud y pethau sydd angen ar-lein.



Mae rhai plant a phobl ifanc yn dweud bod eu rhyngrwyd ddim yn ddigon da ar gyfer galwadau fideo fel Teams neu Zoom.



# Yr Iaith Gymraeg



Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dweud bod nhw'n defnyddio Cymraeg gartre yn eu gwaith a'u gweithgareddau ysgol.



Mae rhai plant a phobl ifanc eisiau mwy o help i ddefnyddio Cymraeg gartre.



# Chwarae



Mae mwy o blant a phobl ifanc yn dweud bod ganddyn nhw lai o amser i ymlacio a chwarae na'r tro dwetha.



Mae pobl ifanc yn dweud bod nhw'n mwynhau siarad â ffrindiau, chwarae gêmiau ar-lein a gwneud ymarfer corff.




Mae plant yn dweud bod nhw'n colli chwarae tu allan gyda ffrindiau.




Mae plant yn dweud bod nhw'n mwynhau chwarae gêmiau ar-lein.



# Plant 3-7 oed




Mae llawer o blant 3-7 oed yn hapus. Ond mae'r rhan fwyaf o blant 3-7 oed yn dweud bod nhw'n teimlo'n drist, neu gymysgedd o drist a hapus.



Mae plant 3-7 oed yn treulio'r rhan fwyaf o'r amser yn gwneud gwaith ysgol, yn chwarae, a gyda'u teulu.



Mae plant 3-7 oed yn dweud bod rhieni, mamgu a thadcu, brodyr a chwiorydd, anifeiliaid anwes ac antis/wncwls yn cadw nhw'n ddiogel.




Mae plant 3-7 yn colli ffrindiau, teulu ac ysgol.



## Plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol (BAME)




Mae plant BAME yn fwy tebygol o fod eisiau rhagor o wybodaeth am y coronafeirws a'r rheolau i'w cadw'n ddiogel.




Mae plant BAME yn fwy tebygol i ddweud bod y newidiadau i ddysgu ac ymarfer corff wedi cael yr effaith fwyaf ar sut maen nhw'n teimlo.




# Plant a phobl ifanc anabl




Mae plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o deimlo'n unig.



Mae plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o deimlo'n drist.



Mae plant anabl yn fwy tebygol o ddweud bod angen help ychwanegol arnyn nhw i deimlo'n hapus ac yn iach.



Yn union fel plant heb anabledd, mae tua hanner y plant anabl yn mwynhau dysgu ar gyflymdra sy'n addas iddyn nhw ac mae tua hanner yn teimlo'n bositif am y gefnogaeth gan yr ysgol neu'r coleg.